Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (PANEL APELIADAU COFRESTRU) 2024

**Rhagfyr 2024**

Mae'r broses o reoleiddio cofrestru ac addasrwydd i ymarfer y gweithlu gofal cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei rheoli gan dri math o ddogfennau cyfreithiol, sydd **oll** yn berthnasol i gofrestru ac addasrwydd i ymarfer unigolion cofrestredig:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau Llywodraeth Cymru;**
- **Cyfres Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'i nodi yn y Rheolau hyn. Dylech felly ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae fersiwn (ddiwygiedig) ddiweddaraf y Ddeddf i'w gweld yn:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents.

Rhestrir y Rheoliadau isod a gellir eu gweld yn - http://www.legislation.gov.uk/wsi

- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023

Mae Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael yn:
https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/sut-mae-gwrandawiadaun-gweithio
https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4), a 91(2) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac yn unol ag adran 75(3) y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol:

## TREFNIANT Y RHEOLAU

### RHAN I

### CYFLWYNIAD


1. Cyfeirio, cychwyn a dirymu 5

2. Dehongli 5


### RHAN II

### CYLCH GWAITH Y PANEL A DULL CYNNAL ACHOSION


3. Cylch gwaith 8

4. Dull cynnal achosion 8


### RHAN III

### Y WEITHDREFN YNGHYLCH APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R COFRESTRYDD


5. Cyflwyno apêl i'r cofrestrydd 9

6 Gwŷs tyst 9

7 Rheoli achos 10

8. Hysbysiad o'r gwrandawiad 11

9. Gohirio'r gwrandawiad 12

10. Absenoldeb unigolyn cofrestredig o wrandawiad gerbron panel apeliadau cofrestru 13

11. Baich a safon y prawf 13

12. Trefn achosion mewn gwrandawiadau llafar 13

13. Tystiolaeth 14

14. Tystion 14

15. Mesurau arbennig 15

16. Oedi'r gwrandawiad 15

17. Pleidleisio 15

18. Hysbysiad o'r penderfyniad 15

19. Trawsgrifiad o'r gwrandawiad 16

20. Achos heb wrandawiad 16

21. Y weithdrefn mewn cyfarfod panel addasrwydd i ymarfer 17

22. Hysbysiad o'r penderfyniad 17

## RHAN IV

## CEISIADAU YNGHYLCH ADFER YN DILYN ACHOS ADDASRWYDD I YMARFER

23. Cais i adfer 18

24. Hysbysiad o'r gwrandawiad a dogfennau ar ei gyfer 18

25. Baich a safon y prawf 19

26. Y weithdrefn mewn gwrandawiadau 20

27. Achos heb wrandawiad 20

28. Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apeliadau cofrestru 21

29. Hysbysiad o'r penderfyniad 21

## RHAN V

## Y WEITHDREFN YNGHYLCH ADOLYGU ATALIAD DROS DRO O'R HAWL I WNEUD CAIS I ADFER

30. Cais i adolygu cyfarwyddyd 22

31. Hysbysiad o'r gwrandawiad 22

32. Baich a safon y prawf 23

33. Y weithdrefn mewn gwrandawiadau 23

| | | |
|---|---|---|
| 34. | Achos heb wrandawiad | 23 |
| 35. | Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apeliadau cofrestru | 24 |
| 36. | Hysbysiad o’r penderfyniad | 24 |
| 37. | Rhoi Hysbysiadau | 25 |

## RHAN I

## CYFLWYNIAD

**Cyfeirio, cychwyn a dirymu**

1. (1) Ceir cyfeirio at y Rheolau hyn fel Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Panel Apeliadau Cofrestru) 2022 a byddant yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2024.

(2) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Apeliadau Cofrestru) 2020 (“Rheolau 2020”).

(3) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Apeliadau Cofrestru) 2022 (“Rheolau 2022”) ond pan fydd gwrandawiad gerbron Panel Apeliadau Cofrestru wedi dechrau cyn 1 Rhagfyr 2024, bydd Rheolau 2022 yn parhau i fod yn berthnasol i’r gwrandawiad hwnnw fel petai Rheolau 2022 mewn grym o hyd.

**Dehongli**

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

Mae **“Deddf”** yn golygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

Mae **“apelydd”** yn golygu unigolyn sy’n cyflwyno apêl gofrestru o dan Ran III;

Mae **“ymgeisydd”** yn golygu unigolyn sy’n gwneud cais o dan Ran IV neu V;

Mae **“achos”** yn golygu gweithrediadau yn ymwneud ag apêl gofrestru gerbron panel apeliadau cofrestru;

Mae **“rheolau trefniadaeth sifil”** yn golygu rheolau’r llys a wneir o dan adran 2 Deddf Trefniadaeth Sifil 1997;

Mae **“clerc”** yn golygu’r unigolyn sy’n gyfrifol am drefniadau gweinyddol y gwrandawiad neu’r cyfarfod;

Mae **“diwrnodau”** yn golygu diwrnodau calendr;

Mae **“proses electronig”** yn golygu proses a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer cyflwyno cais neu gadarnhau gwybodaeth a gyflwynwyd mewn cysylltiad â chais yn electronig;

Mae **“cyflogwr”** yn golygu cyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (sy’n gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol);

Mae **“achos addasrwydd i ymarfer”** yn golygu achos gerbron panel addasrwydd i ymarfer;

Mae **“panel addasrwydd i ymarfer”** yn golygu panel a sefydlwyd o dan adran 174 y Ddeddf i:

(a) wneud penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer unigolion sydd wedi’u cofrestru ar y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;
(b) atal cofrestriad unigolyn ar y gofrestr dros dro, neu osod amodau ar ei gofrestriad, tra’n disgwyl penderfyniad o’r math a grybwyllwyd ym mharagraff (a);

Mae **“*in camera*”** yn golygu yn absenoldeb y partïon a’u cynrychiolwyr, a’r cyhoedd;

Mae **“cynghorydd cyfreithiol”** yn golygu unigolyn a chanddo gymhwyster cyffredinol deng mlynedd o fewn ystyr adran 71 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990, sydd â hawl i ymarfer y gyfraith yng Nghymru a Lloegr;

Mae **“cynghorydd meddygol”** yn golygu ymarferydd meddygol, wedi’i gofrestru o dan Ddeddf Meddygol 1983, a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

Mae **“hysbysiad”** yn golygu gwybodaeth yn ymwneud â chofrestriad unigolyn cofrestredig a gyhoeddir gan y cofrestrydd neu’r unigolyn cofrestredig (neu ei gynrychiolydd), neu wybodaeth yn ymwneud ag achos panel apeliadau cofrestru;

Mae **“partïon”** yn golygu’r apelydd neu’r ymgeisydd a Gofal Cymdeithasol Cymru (neu eu cynrychiolwyr);

Mae **“cyflwynydd”** yn golygu’r unigolyn sy’n gweithredu ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru mewn gwrandawiad gerbron panel, a gallai gynnwys un o swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru neu gyfreithiwr neu fargyfreithiwr a gyflogwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru at y diben hwn;

Mae **“cofrestr”** yn golygu’r gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

Mae **“unigolyn cofrestredig”** yn golygu unigolyn sydd wedi’i gofrestru mewn rhan o’r gofrestr, ac mae’n cynnwys unigolyn:

(a) y byddai ei gofrestriad wedi darfod o dan adran 87(1) y Ddeddf, heblaw am y ffaith bod is-adran (2) yr adran honno’n berthnasol i’r unigolyn;
(b) y mae gorchymyn atal dros dro mewn grym mewn perthynas ag ef;
(c) y mae gorchymyn atal dros dro interim mewn grym mewn perthynas ag ef;
(ch) y mae gorchymyn atal dros dro amhenodol mewn grym mewn perthynas ag ef;

Mae **“cofrestrydd”** yn golygu’r unigolyn a benodwyd yn unol ag adran 81(1) a (2) y Ddeddf;

Mae **“cofrestriad”** yn golygu’r cofnod yn y gofrestr sy’n ymwneud ag unigolyn cofrestredig penodol;

Ystyr **“apêl gofrestru”** yw’r ystyr a roddir iddo yn rheoliad 3 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 (fel y’u diwygiwyd), sef:

(a) apêl a wneir yn unol ag adran 101 y Ddeddf yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd;
(b) cais a wneir yn unol ag adran 97(5) y Ddeddf i adolygu cyfarwyddyd o dan adran 98(4) y Ddeddf;
(c) cais a wneir yn unol ag adran 97(2) y Ddeddf i adfer cofnod unigolyn i ran o’r gofrestr yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer;

Ystyr **“gwrandawiad apeliadau cofrestru”** yw’r ystyr a roddir iddo yn rheoliad 3 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y’u diwygiwyd, sef gwrandawiad gerbron panel apeliadau cofrestru mewn achos apeliadau cofrestru;

Ystyr **“achos apeliadau cofrestru”** yw’r ystyr a roddir iddo yn rheoliad 3 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 fel y’u diwygiwyd, sef achos gerbron panel apeliadau cofrestru y mae adran 98(1), 99(2) neu 103 y Ddeddf yn berthnasol iddo;

Mae **“Rheolau Cofrestru”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2024 neu, os yw’n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach o’r rheolau hynny;

Mae **“Gofal Cymdeithasol Cymru”** yn golygu’r corff corfforaethol a adwaenir fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac a adwaenwyd yn flaenorol fel Cyngor Gofal Cymru;

Mae **“tribiwnlys”** yn golygu’r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

(2) Yn y rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

(a) mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
(b) mae unrhyw gyfeiriad at reol neu ran wedi’i rhifo yn gyfeiriad at y rheol neu’r rhan sydd â’r rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
(c) mae unrhyw gyfeiriad at baragraff wedi’i rifo mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at y paragraff sydd â’r rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno;
(ch) mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi’i rifo mewn paragraff mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at yr is-baragraff sydd â’r rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno.

## RHAN II

## CYLCH GWAITH Y PANEL

### Cylch gwaith

3. (1) Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i'r achosion canlynol gerbron y panel apeliadau cofrestru:

(a) apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 83 y Ddeddf i beidio â chaniatáu cais i gofrestru (a fydd yn cynnwys penderfyniad i beidio â chaniatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr);

(b) apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 86 y Ddeddf i beidio â chaniatáu cais i adnewyddu cofrestriad;

(c) apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 94(1) y Ddeddf i ddileu cofnod unigolyn cofrestredig o'r gofrestr neu anodiad i gofnod (pan fo'r cofnod neu'r anodiad wedi cael ei gynnwys yn y gofrestr yn seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol);

(ch) apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 96(1) y Ddeddf i beidio â chaniatáu cais i adfer i'r gofrestr (pan fo'r ymgeisydd wedi'i ddileu drwy gytundeb neu o ganlyniad i gofnod sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol);

(d) cais i adfer i'r gofrestr o dan adran 97(2) y Ddeddf pan fydd panel addasrwydd i ymarfer wedi gwneud gorchymyn dileu o dan adrannau 138(9), 152(8)(e), 153(9)(d) neu 154(8)(d) y Ddeddf;

(dd) cais o dan adran 97(5) y Ddeddf i adolygu cyfarwyddyd a roddwyd gan banel apeliadau cofrestru o dan adran 98(4) y Ddeddf.

(2) Bydd Rhan II y rheolau hyn yn berthnasol i apeliadau o dan baragraff (1)(a) i (d).

(3) Bydd Rhan III y rheolau hyn yn berthnasol i apeliadau o dan baragraff (1)(e).

(4) Bydd Rhan IV y rheolau hyn yn berthnasol i apeliadau o dan baragraff (1)(f).

### Dull cynnal achosion

4. (1) Bydd y panel apeliadau cofrestru yn cynnal ei achosion yn unol â gofynion y Rheolau hyn a gofynion Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 fel y'u diwygiwyd.

## RHAN III

## Y WEITHDREFN YNGHYLCH APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R COFRESTRYDD

### Cyflwyno apêl i'r cofrestrydd

5. (1) Mae'n rhaid rhoi hysbysiad o'r apêl i'r cofrestrydd o dan adran 101 y Ddeddf yn ysgrifenedig (a allai gynnwys trwy broses electronig).

### Gwŷs tyst

6. (1) Pan fydd un o'r partïon yn mynnu bod tyst yn bresennol neu fod tyst yn cyflwyno dogfen neu dystiolaeth berthnasol a bod y tyst hwnnw wedi gwrthod mynychu neu gyflwyno'r ddogfen gerbron y gwrandawiad (neu wedi methu â chadarnhau y bydd yn gwneud hynny), caiff y parti hwnnw gyflwyno cais ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru yn gofyn iddo wneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys am gyhoeddi gwŷs tyst yn unol â Rheol 34.4 Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998.

(2) Bydd cais ysgrifenedig a wnaed o dan baragraff (1) uchod yn cael ei ystyried gan unigolyn a awdurdodwyd yn briodol, a gaiff benderfynu:

(a) y dylai'r cais gael ei ganiatáu;
(b) y dylai'r cais gael ei wrthod; neu
(c) y dylai'r cais gael ei ystyried gan banel mewn cyfarfod rheoli achos o dan reol 7 neu mewn gwrandawiad a gynullwyd o dan Ran III y rheolau hyn.

(3) Wrth wneud penderfyniad, bydd yr unigolyn a awdurdodwyd yn briodol neu'r panel (yn ôl y digwydd) yn ystyried perthnasedd a phwysigrwydd tystiolaeth y tyst neu'r ddogfen dan sylw a ph'un a yw'n deg ac yn briodol gwneud y cyfarwyddyd a geisir.

(4) Lle y caniateir cais o dan baragraff (2) uchod gan unigolyn a awdurdodwyd yn briodol neu y rhoddir cyfarwyddyd gan banel o dan reol 7(8)(e), bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud cais i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys ac yn cael y wŷs tyst briodol.

(5) Lle'r oedd Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud y cais am gyfarwyddyd ar gyfer y wŷs tyst, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn trefnu i'r wŷs tyst gael ei chyflwyno i'r tyst dan sylw.

(6) Oni chyfarwyddir fel arall, lle y gwnaed y cais am gyfarwyddyd gan neu ar ran yr unigolyn cofrestredig, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi'r wŷs tyst i'r unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd ar ôl iddi gael ei chyhoeddi a bydd yr unigolyn cofrestredig neu ei gynrychiolydd yn trefnu cyflwyno'r wŷs tyst i'r tyst dan sylw.

(7) Oni chyfarwyddir fel arall, bydd y parti sy'n cyflwyno'r wŷs tyst yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau teithio a/neu iawndal am golli amser, fel sy'n ofynnol gan Reol 34.7 y Rheolau Trefniadaeth Sifil.

**Cyfarfod rheoli achos**

7. (1) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cael ei gynnull:

(a) lle, yn dilyn cais gan un o'r partïon, mae swyddog a awdurdodwyd yn briodol yn ystyried y byddai cyfarfod rheoli achos yn briodol;

(b) yn unol â chyfarwyddyd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol;

(c) yn unol â chyfarwyddyd panel

(2) Ceir cynnal cyfarfod rheoli achos drwy fynychu'r cyfarfod yn bersonol neu drwy gymryd rhan mewn ffôn-gynadledda neu fideo-gynadledda.

(3) Yn amodol ar baragraff (4), bydd clerc yn anfon hysbysiad priodol at yr unigolyn cofrestredig a'r cyflwynydd o leiaf bum niwrnod cyn y cyfarfod rheoli achos.

(4) Caiff y panel hepgor y cyfnod hysbysu y cyfeirir ato ym mharagraff (3) os yw'r panel yn fodlon bod angen cyfnod hysbysu byrrach er budd y cyhoedd.

(5) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cynnwys un aelod o banel oni bai:

(a) bod unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn penderfynu y dylai'r panel gynnwys tri aelod; neu

(c) pan fydd panel yn cyfarwyddo y dylai cyfarfod rheoli achos gael ei gynnal, bod y panel hefyd yn cyfarwyddo y dylai'r panel ar gyfer y cyfarfod rheoli achos gynnwys tri aelod.

(6) Gall yr aelod(au) o banel fod yr un aelod(au) a ddefnyddir ar gyfer y gwrandawiad llawn neu beidio.

(7) Bydd y panel mewn cyfarfod rheoli achos yn cael ei gynghori gan gynghorydd cyfreithiol.

(8) Caiff y cyfarfod rheoli achos roi cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr achos yn cael ei gynnal yn gyfiawn, yn gyflym ac yn effeithiol, a chaiff wneud penderfyniad ynglŷn â mater rhagarweiniol y gellir penderfynu arno gan banel yn unig, gan gynnwys:

(a) p'un a ddylai tystiolaeth benodol gael ei chyfaddef;

(b) p'un a ddylai tyst penodol gael ei drin fel un y mae arno angen mesurau arbennig ac, os felly, pa fesurau y dylid eu sefydlu;

(c) p'un a ddylai gwrandawiad neu ran ohono gael ei gynnal yn breifat yn unol â rheoliad 9 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016;

(ch) p'un a ganiateir i'r unigolyn cofrestredig gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad gerbron y panel apeliadau cofrestru gan rywun heblaw am gyfreithiwr, cwnsler neu gynrychiolydd o gorff proffesiynol;

(d) p'un a ellir cynnal yr achos heb wrandawiad pan fydd yr amgylchiadau yn rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn berthnasol yn unol â rheol 20;

(dd) p'un a fydd iechyd yr apelydd yn cael ei godi fel mater yn yr achos;

(e) p'un a ddylid rhoi cyfarwyddyd ar gyfer gwŷs tyst;

(f) p'un a ddylai'r gwrandawiad gerbron y panel apeliadau cofrestru gael ei gynnal ar ffurf gwrandawiad rhithwir neu wyneb yn wyneb.

(9) Bydd y weithdrefn yn y cyfarfod rheoli achos yn cael ei phenderfynu gan y panel yn unig.

(10) Bydd cyfarfod rheoli achos yn cael ei gynnal yn breifat, oni bai bod y panel yn cyfarwyddo fel arall.

(11) Lle nad yw parti'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddwyd mewn cyfarfod rheoli achos, caiff panel addasrwydd i ymarfer ddod i'r cyfryw gasgliadau ag y mae'n ystyried eu bod yn briodol a/neu wneud pa benderfyniad bynnag y mae'n credu ei fod yn fwyaf priodol o ran derbynioldeb tystiolaeth neu unrhyw fater arall perthnasol.

**Hysbysiad o'r gwrandawiad**

8. (1) O leiaf 42 diwrnod cyn gwrandawiad y panel apeliadau cofrestru, bydd y clerc yn anfon hysbysiad at yr apelydd, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad cyfarfod y panel apeliadau cofrestru;
(b) yn amlinellu unrhyw resymau dros wrthod cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad neu ddileu cofrestriad neu ddychwelyd i'r gofrestr neu adfer i'r gofrestr (o dan reol 3(1));
(c) yn rhoi gwybod i'r apelydd am yr hawl i fynychu'r gwrandawiad a gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel neu i gael ei gynrychioli gan:
    (i) gyfreithiwr neu gwnsler,
    (ii) cynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol, neu
    (iii) os yw'r panel apeliadau cofrestru yn cytuno, unrhyw unigolyn arall;
(ch) yn rhoi gwybod i'r apelydd y dylai unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan unigolyn heblaw am y rhai a restrir ym mharagraff (c)(i) neu (ii) uchod, gael ei anfon at y clerc o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod o'r panel;
(d) yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â ph'un a yw'r apelydd yn bwriadu:
    (i) mynychu'r gwrandawiad;
    (ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad;
    (iii) cytuno i'r achos gael ei benderfynu heb wrandawiad os yw'r amgylchiadau yn rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn berthnasol;
(dd) yn gofyn i'r apelydd roi gwybod i'r panel p'un a yw'r apelydd yn dymuno gwneud cais i'r achos cyfan neu ran ohono gael ei glywed yn breifat o dan reoliad 9(2) neu (3) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016;
(e) yn rhoi gwybod i'r apelydd na chaiff unigolyn sy'n bwriadu mynychu a rhoi tystiolaeth yn y gwrandawiad fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes bod y gyfryw dystiolaeth wedi cael ei rhoi, heb ganiatâd y panel;
(f) yn rhoi gwybod i'r apelydd, os na fydd yn dymuno mynychu'r gwrandawiad, y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o leiaf bum niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad i'w hystyried gan y panel;
(ff) yn rhoi gwybod i'r apelydd am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel;
(g) yn rhoi gwybod i'r apelydd am bŵer y panel i fwrw ymlaen yn absenoldeb yr apelydd, neu gynrychiolydd yr apelydd, yn y gwrandawiad;

(ng) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau sydd i'w cyflwyno gerbron y panel apeliadau cofrestru, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.

(2) Ni fydd y gwrandawiad yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad ym mharagraff (1), ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

(3) O leiaf 28 niwrnod cyn cyfarfod y panel apeliadau cofrestru, bydd y partïon yn cyflwyno i'w gilydd, ac yn rhoi i'r clerc, gopïau o unrhyw ddogfennau y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

(4) O leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod y panel apeliadau cofrestru, bydd y clerc yn anfon y canlynol at bob aelod o'r panel:

(a) copi o'r hysbysiad o'r gwrandawiad;
(b) copïau o'r holl ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth a sylwadau, a gyflwynwyd gan yr apelydd;
(c) unrhyw wybodaeth, neu gopïau o unrhyw ddogfennau a gafwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru sy'n berthnasol i'r apêl.

**Gohirio'r gwrandawiad**

9. (1) Pan fydd y naill barti neu'r llall yn dymuno gohirio'r gwrandawiad, bydd cais yn cael ei wneud yn ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru.

(2) Bydd y parti sy'n gwneud cais o'r fath yn rhoi copi o'r cais i'r parti arall, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.

(3) Caiff y parti y rhoddir y cais iddo gyflwyno ymateb ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru.

(4) Bydd y cais yn cael ei ystyried gan gadeirydd y panel a fydd, yn amodol ar baragraff (5), yn penderfynu ar y cais, gan ystyried:

(a) cyflwyniadau'r ddau barti;
(b) unrhyw niwed tebygol i'r naill barti neu'r llall;
(c) budd y cyhoedd o ran gwaredu'r achos yn gyflym.

(5) Pan fydd y cadeirydd o'r farn na ellir gwneud penderfyniad heb wybodaeth neu gyflwyniadau ychwanegol gan un neu fwy o'r partïon, caiff y cadeirydd gyfarwyddo:
(a) bod y cais yn cael ei atgyfeirio i gyfarfod rheoli achos i'w ystyried o dan reol 7; neu
(b) os yw'r cais am ohirio'n cael ei wneud llai na saith diwrnod cyn y gwrandawiad, y dylai'r cais gael ei benderfynu gan y panel a gynullwyd i glywed yr apêl.

(6) Os bydd y cais am ohirio'n cael ei ganiatáu, neu os bydd rhaid i'r mater gael ei aildrefnu am ryw reswm arall, bydd y clerc yn rhoi gwybod i'r partïon am ddyddiad newydd y gwrandawiad, cyn gynted â phosibl.

**Absenoldeb apelydd o wrandawiad gerbron panel apeliadau cofrestru**

10. (1) Caiff gwrandawiad gerbron panel apeliadau cofrestru fwrw ymlaen hyd yn oed os nad yw'r apelydd yn bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli, os yw'r panel yn fodlon bod pob ymdrech resymol wedi'i gwneud i hysbysu'r unigolyn o'r gwrandawiad.

(2) Os nad yw'r apelydd yn bresennol ac nad yw'n cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, bydd y panel:

(a) yn mynnu cael tystiolaeth bod hysbysiad o'r gwrandawiad wedi cael ei anfon at yr apelydd yn unol â rheol 8, ac
(b) yn holi a oes unrhyw resymau pam nad yw'r apelydd yn bresennol wedi cael eu cyfleu i Ofal Cymdeithasol Cymru.

(3) Lle mae paragraff (1) yn berthnasol, bydd y panel yn penderfynu p'un ai ymarfer y disgresiwn o dan reoliad 12(4) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 i fwrw ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb yr apelydd neu oedi, a bydd yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad.

**Baich a safon y prawf**

11. (1) Bydd baich y prawf mewn achos o dan reol 3(1)(a), (b) neu (ch) gerbron y panel apeliadau cofrestru yn syrthio ar yr apelydd.

(2) Bydd baich y prawf mewn achos o dan reol 3(1)(c) gerbron y panel apeliadau cofrestru yn syrthio ar Ofal Cymdeithasol Cymru.

(3) Lle y dadleuir ffeithiau, bydd y panel yn penderfynu ar y ffeithiau yn unol â'r safon sifil, yn ôl yr hyn sy'n debygol.

**Trefn achosion mewn gwrandawiadau**

12. (1) Pan gynhelir gwrandawiad gyda thystiolaeth lafar a/neu gyflwyniadau llafar, bydd trefn achosion gerbron y panel apeliadau cofrestru fel a ganlyn:

(a) bydd y cyflwynydd yn gwneud datganiad agoriadol o'r rhesymau dros benderfyniad y cofrestrydd;
(b) bydd gan yr apelydd hawl i ymateb, naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd (os yw'n bresennol);
(c) caiff y cyflwynydd gyflwyno tystiolaeth i ategu penderfyniad y cofrestrydd;
(ch) caiff yr apelydd, naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd, gynhyrchu tystiolaeth;
(d) pan fydd yr apelydd yn rhoi tystiolaeth, bydd y cyflwynydd a'r panel apeliadau cofrestru yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r apelydd;
(dd) caiff y partïon gyfle i wneud cyflwyniadau terfynol;
(e) ar ôl cael cyngor cyfreithiol, bydd y panel yn gwneud dyfarniad ar yr apêl *in camera*;
(f) bydd cadeirydd y panel apeliadau cofrestru yn cyhoeddi'r penderfyniad, a'r rhesymau dros ei benderfyniad, ym mhresenoldeb y partïon.

**Tystiolaeth**

13. (1) Yn amodol ar reoliad 8(2) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, caiff panel dderbyn tystiolaeth lafar neu ddogfennol neu dystiolaeth arall.

(2) Yn ogystal â chaniatáu'r tystysgrifau y cyfeirir atynt yn rheoliad 20(3)[1], (4)[2] a (5)[3] Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd cynhyrchu cofnod o rybuddiad yn dystiolaeth prima facie o ffeithiau sylfaenol y drosedd a arweiniodd at y rhybuddiad.

(3) Caiff panel ganiatáu tystiolaeth a gyflwynwyd gan barti er nad yw'r gyfryw dystiolaeth wedi cael ei datgelu yn unol â rheol 8(3):

(a) os yw'r partïon yn cydsynio; neu
(b) ar ôl clywed cyflwyniadau gan y partïon a derbyn cyngor cyfreithiol gan y cynghorydd cyfreithiol, os yw'n fodlon bod y dystiolaeth yn berthnasol ac y byddai'n deg ei chaniatáu.

(4) Caiff panel, o'i wirfodd, ofyn i'r partïon ddarparu dogfennau neu dystiolaeth arall neu ofyn i unrhyw unigolyn roi tystiolaeth lafar y mae'n credu y gallai ei gynorthwyo i wneud penderfyniad.

**Tystion**

14. (1) Bydd tystion yn tyngu llw neu bydd yn ofynnol iddynt roi cadarnhad.

(2) Caiff panel, ar gais y parti sy'n galw'r tyst, gytuno na fydd manylion personol y tyst yn cael eu datgelu'n gyhoeddus.

(3) Bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw ac yna caiff y parti gwrthwynebol eu croesholi. Wedyn, caiff y parti sy'n galw'r tyst ail-holi'r tyst.

(4) Yna, caiff y panel, neu'r cynghorydd cyfreithiol, holi'r tystion gyda chaniatâd y cadeirydd.

(5) Wedi hynny, caiff y partïon holi'r tystion ar faterion sy'n deillio o gwestiynau'r panel. Bydd y parti sy'n galw'r tyst yn holi'r tyst olaf.

(6) Bydd tystion yn cael eu holi ymhellach yn ôl disgresiwn panel yn unig.

---

[1] Mae rheoliad 20(3) yn darparu bod tystysgrif a lofnodwyd gan swyddog cymwys llys o unrhyw awdurdodaeth sy'n datgan bod unigolyn wedi cael ei euogfarnu o drosedd, neu yn yr Alban a darn o euogfarn (*extract conviction*), yn dystiolaeth bendant o'r drosedd.

[2] Mae rheoliad 20(4) yn darparu bod tystysgrif bod unigolyn wedi'i gynnwys ar restr wahardd (at ddibenion adran 117(1)(c) y Ddeddf), a roddwyd gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal y rhestr, yn dystiolaeth bendant o'r ffaith honno.

[3] Mae rheoliad 20(5) yn darparu bod tystysgrif a roddwyd gan gorff perthnasol (at ddibenion adran 117(1)(d) y Ddeddf) sy'n datgan ei fod wedi penderfynu bod amhariad ar addasrwydd unigolyn i ymarfer yn dystiolaeth bendant o'r penderfyniad hwnnw.

(7) Ni chaniateir i dystion fynychu ac arsylwi'r achos hyd nes y byddant wedi gorffen rhoi tystiolaeth i banel a chael eu rhyddhau'n ffurfiol gan y cadeirydd.

**Mesurau arbennig**

15. (1) Pan fydd panel yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 11(10) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, caiff y mesurau arbennig sydd i'w gweithredu neu eu darparu gynnwys y canlynol, ond ni fyddant yn gyfyngedig iddynt:

(a) defnyddio cysylltiadau fideo;
(b) defnyddio tystiolaeth a recordiwyd o flaen llaw fel tystiolaeth tyst;
(c) defnyddio sgriniau;
(ch) defnyddio dehonglwyr (gan gynnwys dehonglwyr iaith arwyddion a chyfieithwyr) neu gyfryngwyr.

**Oedi'r gwrandawiad**

16. (1) Yn amodol ar ofynion gwrandawiad teg, ac ar ôl clywed sylwadau gan y partïon, caiff panel, ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawiad, oedi'r achos er mwyn ceisio rhagor o wybodaeth neu at unrhyw ddiben arall.

(2) Pan fydd y gwrandawiad wedi cael ei oedi, bydd y clerc, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn rhoi gwybod i'r partïon am y dyddiad a bennwyd ar gyfer ailgychwyn y gwrandawiad.

**Pleidleisio**

17. (1) Bydd penderfyniadau'r panel yn cael eu gwneud trwy fwyafrif syml.

(2) Ni chaiff cadeirydd y panel arfer pleidlais fwrw.

(3) Bydd unrhyw ymataliad yn cael ei ystyried yn bleidlais o blaid yr apelydd.

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

18. (1) O fewn saith diwrnod ar ôl i'r gwrandawiad ddod i ben, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at yr apelydd, a fydd:

(a) yn amlinellu penderfyniad a rhesymau'r panel apeliadau cofrestru;
(b) lle y bo'n berthnasol[4], yn amlinellu hawl yr apelydd i apelio i'r tribiwnlys.

---

[4] Yn ôl adran 104(1) a (2), ceir cyflwyno apêl i'r tribiwnlys pan fydd panel apeliadau cofrestru –
(a) yn gwneud dyfarniad o dan adran 98(1)(b) na ddylai cofnod yn y gofrestr gael ei adfer am reswm sy'n ymwneud ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer;
(b) yn cyfarwyddo o dan adran 98(4) na chaiff unigolyn wneud ceisiadau pellach i adfer i ran o'r gofrestr, neu'n cadarnhau cyfarwyddyd o'r fath o dan adran 99(2);
(c) yn gwneud dyfarniad o ran cais i adfer a atgyfeiriwyd iddo trwy gyfrwng reolau a wnaed o dan adran 100(2)(e) am reswm sy'n ymwneud ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer;
(ch) yn gwneud dyfarniad o dan adran 103 mewn perthynas ag apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd.

(2) O fewn saith diwrnod o ddiwedd y gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at gyflogwr yr apelydd (os oes un), a fydd yn gyfyngedig i benderfyniad y panel apeliadau cofrestru.

(3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu'r wybodaeth ym mharagraff (2) i:

(a) Lywodraeth Cymru;
(b) unrhyw gorff rheoleiddiol.

**Trawsgrifiad o'r gwrandawiad**

19. (1) Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i recordio gwrandawiad gerbron panel.

(2) Ar ôl derbyn cais, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn anfon trawsgrifiad a/neu gopi electronig o'r recordiad, o unrhyw ran o'r achos yr oedd gan yr apelydd hawl i fod yn bresennol ynddi, at yr apelydd.

**Achos heb wrandawiad**

20. (1) Pan wneir dyfarniad ar apêl mewn cyfarfod a heb yr angen am wrandawiad yn unol â Rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd gofynion canlynol y rheol hon a rheol 21 yn berthnasol o ran y weithdrefn i'w dilyn.

(2) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at yr apelydd, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
(b) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y panel;
(c) yn rhoi gwybod i'r apelydd am y canlyniadau posibl;
(ch) yn gwahodd yr apelydd i ddarparu unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig y mae'n dymuno eu gwneud ynglŷn â'r achos o fewn 14 diwrnod o gyflwyno'r hysbysiad;
(d) yn rhoi gwybod i'r apelydd am ei hawliau i:
  (i) fynychu gwrandawiad llafar;
  (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;
  (iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
  (iv) galw a chroesholi tystion;
(dd) yn rhoi gwybod i'r apelydd fod rhaid iddo hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o'r cyfarfod os yw'n dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau ym mharagraff (d) ac, yn absenoldeb y cyfryw hysbysiad, y caiff y panel apeliadau cofrestru fwrw ymlaen i ymdrin â'r achos mewn cyfarfod ar y dyddiad a bennwyd.

(3) Ni cheir trefnu'r cyfarfod ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r cyfarfod ym mharagraff (1), ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

**Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apeliadau cofrestru**

21. (1) Bydd panel apeliadau cofrestru yn cyfarfod yn breifat gyda chynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti'n bresennol.

(2) Os yw'r panel o'r farn ar unrhyw adeg o'r cyfarfod y dylid ymdrin â'r achos mewn gwrandawiad, gan ystyried buddiannau cyfiawnder a budd y cyhoedd, bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad.

(3) Bydd y panel yn ystyried yr achos yn seiliedig ar y dystiolaeth ysgrifenedig a'r cyflwyniadau ysgrifenedig a wnaed gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chan neu ar ran yr apelydd.

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

22. (1) O fewn saith diwrnod o ddiwedd y cyfarfod, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at yr apelydd, a fydd:

(a) yn amlinellu penderfyniad a rhesymau'r panel apeliadau cofrestru;
(b) lle y bo'n berthnasol[5], yn amlinellu hawl yr apelydd i apelio i'r tribiwnlys.

(2) O fewn saith diwrnod o ddiwedd y gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at gyflogwr yr apelydd (os oes un), a fydd yn gyfyngedig i benderfyniad y panel apeliadau cofrestru.

(3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu'r wybodaeth ym mharagraff (2) i:

(a) Lywodraeth Cymru;
(b) unrhyw gorff rheoleiddiol.

---

[5] Yn ôl adran 104(1) a (2), ceir cyflwyno apêl i'r tribiwnlys pan fydd panel apeliadau cofrestru –
(a) yn gwneud dyfarniad o dan adran 98(1)(b) na ddylai cofnod yn y gofrestr gael ei adfer am reswm sy'n ymwneud ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer;
(b) yn cyfarwyddo o dan adran 98(4) na chaiff unigolyn wneud ceisiadau pellach i adfer i ran o'r gofrestr, neu'n cadarnhau cyfarwyddyd o'r fath o dan adran 99(2);
(c) yn gwneud dyfarniad o ran cais i adfer a atgyfeiriwyd iddo trwy gyfrwng reolau a wnaed o dan adran 100(2)(e) am reswm sy'n ymwneud ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer;
(ch) yn gwneud dyfarniad o dan adran 103 mewn perthynas ag apêl yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd.

## RHAN IV

## CEISIADAU YNGHYLCH
## ADFER YN DILYN ACHOS ADDASRWYDD I YMARFER

### Cais i adfer

23. (1) Pan fydd panel addasrwydd i ymarfer wedi gwneud gorchymyn dileu yn flaenorol, ceir gwneud cais i adfer, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 97(3)(a)[6] neu (b)[7] neu 98(4)[8] y Ddeddf yn berthnasol.

(2) Mae'n rhaid i unigolyn sy'n gwneud cais i adfer o dan y rheol hon ddarparu'r canlynol i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig:

(a) cais i gofrestru sy'n bodloni gofynion rheolau 3 i 9 a 19 (os yw'n berthnasol) y Rheolau Cofrestru;

(b) y ffi briodol (fel y'i pennir yn Atodlen 3 y Rheolau Cofrestru); ac

(c) unrhyw dystiolaeth ddogfennol y dibynnir arni i ategu'r cais.

### Hysbysiad o'r gwrandawiad a dogfennau ar ei gyfer

24. (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais cyflawn i adfer i'r gofrestr sy'n cydymffurfio â rheol 23, bydd y clerc yn anfon y canlynol at yr ymgeisydd:

(a) copi o drawsgrifiad gwrandawiad y panel addasrwydd i ymarfer a gyflwynodd y gorchymyn dileu;
(b) unrhyw ddogfennau y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn dibynnu arnynt;
(c) hysbysiad o wrandawiad gerbron y panel apeliadau cofrestru.

(2) O leiaf 42 diwrnod cyn gwrandawiad y panel apeliadau cofrestru, bydd y clerc yn anfon hysbysiad at yr apelydd, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;
(b) yn rhoi gwybod i'r apelydd am yr hawl i fynychu'r gwrandawiad a gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel neu i gael ei gynrychioli gan:
  (i) gyfreithiwr neu gwnsler,
  (ii) cynrychiolydd o unrhyw sefydliad proffesiynol, neu
  (iii) os yw'r panel apeliadau cofrestru yn cytuno, unrhyw unigolyn arall;
(c) yn rhoi gwybod i'r apelydd y dylai unrhyw gais i gael ei gynrychioli gan unigolyn heblaw am y rhai a restrir ym mharagraff (1)(b)(i) a (ii) uchod, gael ei anfon at y clerc o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfod o'r panel;

---

[6] Yn ôl adran 97(3)(a), ni chaiff yr unigolyn wneud cais i adfer cyn pen pum mlynedd yn dechrau ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn.
[7] Yn ôl adran 97(3)(b), ni chaiff yr unigolyn wneud cais i adfer os yw wedi gwneud cais i adfer i'r gofrestr o fewn cyfnod o 12 mis cyn y cais.
[8] Yn ôl adran 98(4), caiff panel apeliadau cofrestru roi cyfarwyddyd na chaiff unigolyn wneud cais i adfer i'r gofrestr pan fydd yr unigolyn wedi gwneud dau gais neu fwy yn flaenorol ac, ar yr ail gais neu'r cais dilynol, bod y panel apeliadau cofrestru wedi cyfarwyddo na chaiff yr unigolyn wneud unrhyw geisiadau pellach i adfer.

(ch) yn gofyn am gadarnhad ynglŷn â ph'un a yw'r apelydd yn bwriadu:
  (i) mynychu'r gwrandawiad;
  (ii) cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad;
  (iii) cytuno i'r achos gael ei benderfynu heb wrandawiad os yw'r amgylchiadau yn rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 yn berthnasol;

(d) yn gofyn i'r apelydd roi gwybod i'r panel p'un a yw'r apelydd yn dymuno gwneud cais i'r achos cyfan neu ran ohono gael ei glywed yn breifat o dan reoliad 9(2) neu (3) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016; fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017;

(dd) yn rhoi gwybod i'r apelydd na chaiff unigolyn sy'n bwriadu mynychu a rhoi tystiolaeth yn y gwrandawiad fod yn bresennol yn ystod yr achos hyd nes bod y gyfryw dystiolaeth wedi cael ei rhoi, heb ganiatâd y panel;

(e) yn rhoi gwybod i'r apelydd, os na fydd yn dymuno mynychu'r gwrandawiad, y caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o leiaf bum niwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad i'w hystyried gan y panel;

(f) yn rhoi gwybod apelydd am y canlyniadau posibl sydd ar gael i'r panel;

(ff) yn rhoi gwybod i'r apelydd am bŵer y panel i fwrw ymlaen yn absenoldeb yr apelydd, neu gynrychiolydd yr apelydd, yn y gwrandawiad;

(g) yn amgáu copïau o unrhyw ddogfennau sydd i'w cyflwyno gerbron y panel apeliadau cofrestru, gan gynnwys copi o'r Rheolau hyn.

(3) Ni fydd y gwrandawiad yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r gwrandawiad ym mharagraff (2), ac eithrio gyda chytundeb yr ymgeisydd.

(4) O leiaf 28 niwrnod cyn cyfarfod y panel apeliadau cofrestru, bydd yr ymgeisydd yn rhoi copïau i'r clerc o unrhyw ddogfennau y mae'r ymgeisydd yn bwriadu dibynnu arnynt.

(5) O leiaf saith diwrnod cyn gwrandawiad y panel apeliadau cofrestru, bydd y clerc yn anfon y canlynol at bob aelod o'r panel:

(a) copi o'r hysbysiad o'r gwrandawiad;

(b) copïau o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd gan yr apelydd;

(c) unrhyw wybodaeth, neu gopïau o unrhyw ddogfennau a gafwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru sy'n berthnasol i'r cais; ac

(ch) unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

**Baich a safon y prawf**

25. (1) Bydd baich y prawf mewn achos gerbron y panel apeliadau cofrestru o dan reol 3(1)(d) yn syrthio ar yr apelydd.

(2) Lle y dadleuir ffeithiau, bydd y panel yn penderfynu ar y ffeithiau yn unol â'r safon sifil, yn ôl yr hyn sy'n debygol.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiadau**

26. (1) Bydd rheolau 7, 9, 10 a 12 i 19 yn berthnasol i geisiadau o dan y rhan hon fel y bônt yn berthnasol i apeliadau o dan Ran III.

(2) Bydd y cyflwynydd yn amlinellu hanes achos yr ymgeisydd a'r amgylchiadau y gwnaed y gorchymyn oddi tanynt.

(3) Caiff y cyflwynydd gyflwyno unrhyw ddogfennau a ystyriwyd gan y panel addasrwydd i ymarfer a wnaeth y gorchymyn dileu ac unrhyw ddogfennau sydd wedi dod i law Gofal Cymdeithasol Cymru ers hynny sy'n ymwneud ag addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer, a chaiff alw tystion i roi tystiolaeth.

(4) Caiff yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd annerch y panel ynglŷn â pham y dylid adfer y cofrestriad, a chaiff alw tystion i ategu'r cais.

(5) Bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw a gallant gael eu holi gan y parti arall, y panel a'r cynghorydd cyfreithiol.

(6) Bydd y panel apeliadau cofrestru yn cael cyngor cyfreithiol gan y cynghorydd cyfreithiol cyn dyfarnu ar y cais.

(7) Bydd y panel apeliadau cofrestru yn cael cyngor meddygol gan y cynghorydd meddygol cyn dyfarnu ar y cais pan wnaed y gorchymyn dileu ar y sail bod amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer oherwydd rhesymau iechyd.

(8) Wrth wneud dyfarniad, bydd y panel apeliadau cofrestru yn ystyried:

(a) y rhesymau dros ddileu'r ymgeisydd o'r gofrestr;
(b) tystiolaeth ynglŷn ag addasrwydd presennol yr ymgeisydd i ymarfer;
(c) tystiolaeth ynglŷn ag ymddygiad yr ymgeisydd ers ei ddileu o'r gofrestr;
(ch) yr angen i amddiffyn y cyhoedd;
(d) y budd i'r cyhoedd o gynnal hyder mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**Achos heb wrandawiad**

27. (1) Pan wneir dyfarniad ar gais o dan y Rhan hon mewn cyfarfod a heb yr angen am wrandawiad yn unol â Rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd gofynion canlynol y rheol hon yn berthnasol a bydd rheol 28 yn berthnasol o ran y weithdrefn i'w dilyn.

(2) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r cyfarfod at yr ymgeisydd, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
(b) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y panel;
(c) yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y canlyniadau posibl;
(ch) yn gwahodd yr apelydd i ddarparu unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig y mae'n dymuno eu gwneud ynglŷn â'r achos;
(d) yn rhoi gwybod i'r apelydd am ei hawliau i:
    (i) fynychu gwrandawiad llafar;
    (ii) rhoi tystiolaeth i'r panel;
    (iii) gwneud cyflwyniadau llafar i'r panel naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd;

(iv) galw a chroesholi tystion;

(dd) yn rhoi gwybod i'r apelydd fod rhaid iddo hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o'r cyfarfod os yw'n dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau ym mharagraff (d) ac, yn absenoldeb y cyfryw hysbysiad, y caiff y panel apeliadau cofrestru fwrw ymlaen i ymdrin â'r achos mewn cyfarfod ar y dyddiad a bennwyd.

(3) Ni cheir trefnu'r cyfarfod ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o'r cyfarfod ym mharagraff (1), ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

**Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apeliadau cofrestru**

28. (1) Bydd panel apeliadau cofrestru yn cyfarfod yn breifat gyda chynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti'n bresennol.

(2) Pan fydd yr ymgeisydd wedi gofyn i'r achos gael ei ystyried mewn gwrandawiad, bydd y panel yn oedi'r cyfarfod ac yn atgyfeirio'r achos ar gyfer gwrandawiad.

(3) Os yw'r panel o'r farn ar unrhyw adeg o'r cyfarfod y dylid ymdrin â'r achos mewn gwrandawiad, gan ystyried buddiannau cyfiawnder a budd y cyhoedd, bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad.

(4) Bydd y panel yn ystyried yr achos yn seiliedig ar y dystiolaeth ysgrifenedig a'r cyflwyniadau ysgrifenedig a wnaed gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chan neu ar ran yr apelydd.

(5) Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y panel a'r rhesymau dros ei benderfyniad gerbron y partïon (lle y bônt yn bresennol), oni bai bod y panel yn penderfynu y dylid rhoi'r penderfyniad a'r rhesymau i'r partïon yn ysgrifenedig.

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

29. (1) O fewn saith diwrnod o ddiwedd y gwrandawiad neu'r cyfarfod, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at yr ymgeisydd, a fydd:

(a) yn amlinellu penderfyniad a rhesymau'r panel apeliadau cofrestru;
(b) lle y bo'n berthnasol, yn amlinellu hawl yr ymgeisydd i apelio i'r tribiwnlys[9].

(2) O fewn saith diwrnod o ddiwedd y gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at gyflogwr yr apelydd (os oes un), a fydd yn gyfyngedig i benderfyniad y panel apeliadau cofrestru.

(3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu'r wybodaeth ym mharagraff (2) i:

[9] O dan a98(4) y Ddeddf, pan fydd unigolyn wedi gwneud dau gais neu fwy o dan a97(2) i'w adfer i'r un rhan o'r gofrestr, ar yr ail gais neu'r cais dilynol, gall y Panel Apeliadau Cofrestru gyfarwyddo na chaiff yr unigolyn wneud unrhyw geisiadau pellach o dan a97(2) i'w adfer i'r rhan honno o'r gofrestr. Os rhoddir cyfarwyddyd o'r fath, dylid cynnwys hysbysiad ohono yn yr hysbysiad o'r penderfyniad, a ddylai gyfeirio hefyd at yr hawl i apelio yn erbyn y cyfarwyddyd hwnnw o dan a104.

(a) Lywodraeth Cymru;
(b) unrhyw gorff rheoleiddiol.

## RHAN V

## Y WEITHDREFN YNGHYLCH ADOLYGU ATALIAD DROS DRO O'R HAWL I WNEUD CAIS I ADFER[10]

### Cais i adolygu cyfarwyddyd

30. (1) Mae'n rhaid i unigolyn sy'n gwneud cais i adolygu'r cyfarwyddyd o dan y Rhan hon ddarparu cais ysgrifenedig i'r cofrestrydd ynghyd â chopïau o'r holl ddogfennau y dibynnir arnynt i ategu'r cais.

### Hysbysiad o'r gwrandawiad

31. (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais i adolygu'r cyfarwyddyd, bydd y clerc yn anfon y canlynol at yr ymgeisydd:

(a) copi o'r trawsgrifiad o'r gwrandawiad addasrwydd i ymarfer a gyflwynodd y gorchymyn dileu (os yw ar gael);
(b) copi o benderfyniad y panel apeliadau cofrestru, sy'n cynnwys y cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 98(4) y Ddeddf;
(c) unrhyw ddogfennau eraill y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn dibynnu arnynt;
(ch) hysbysiad o wrandawiad gerbron y panel apeliadau.

(2) O leiaf 42 diwrnod cyn gwrandawiad y panel apeliadau cofrestru, bydd y clerc yn anfon hysbysiad at yr apelydd, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;
(b) yn amlinellu hawl yr ymgeisydd, o fewn 21 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, i anfon y canlynol at Ofal Cymdeithasol Cymru i ategu'r cais i adolygu:
    (i) sylwadau ysgrifenedig; ac
    (ii) unrhyw dystiolaeth ddogfennol y bwriedir dibynnu arni.

(3) Ni fydd y gwrandawiad yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy'n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o wrandawiad ym mharagraff (2), ac eithrio gyda chytundeb yr ymgeisydd.

(4) O leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon copïau o'r canlynol at y panel apeliadau cofrestru:

(a) yr hysbysiad o'r gwrandawiad;

[10] O dan a98(4) y Ddeddf, pan fydd unigolyn wedi gwneud dau gais neu fwy o dan a97(2) i'w adfer i'r un rhan o'r gofrestr, ar yr ail gais neu'r cais dilynol, gall y Panel Apeliadau Cofrestru gyfarwyddo na chaiff yr unigolyn wneud unrhyw geisiadau pellach o dan a97(2) i'w adfer i'r rhan honno o'r gofrestr.

(b) y cais i adolygu'r cyfarwyddyd ac unrhyw ddogfennau ategol a ddarparwyd gan yr ymgeisydd;

(c) copi o'r trawsgrifiad o'r gwrandawiad addasrwydd i ymarfer a gyflwynodd y gorchymyn dileu;

(ch) copi o benderfyniad y panel apeliadau cofrestru, sy'n cynnwys y cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 98(4) y Ddeddf;

(d) unrhyw ddogfennau y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn dibynnu arnynt;

(dd) unrhyw ddogfennau y mae'r ymgeisydd yn dibynnu arnynt.

**Baich a safon y prawf**

32. (1) Bydd baich y prawf mewn achos gerbron y panel apeliadau cofrestru o dan reol 3(1)(dd) yn syrthio ar yr apelydd.

(2) Lle y dadleuir ffeithiau, bydd y panel yn penderfynu ar y ffeithiau yn unol â'r safon sifil, yn ôl yr hyn sy'n debygol.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiadau**

33. (1) Bydd rheolau 7, 9, 10 a 12 i 19 yn berthnasol i geisiadau o dan y Rhan hon fel y bônt yn berthnasol i apeliadau o dan Ran III.

(2) Bydd y cyflwynydd yn amlinellu hanes achos yr ymgeisydd, yr amgylchiadau y gwnaed y gorchymyn oddi tanynt a'r cyfarwyddyd a roddwyd.

(3) Caiff y cyflwynydd gyflwyno unrhyw ddogfennau a ystyriwyd gan y panel addasrwydd i ymarfer a wnaeth y gorchymyn dileu, penderfyniad y panel apeliadau cofrestru sy'n cynnwys y cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 98(4) y Ddeddf, ac unrhyw ddogfennau sydd wedi dod i law Gofal Cymdeithasol Cymru ers hynny sy'n ymwneud ag addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer, a chaiff alw tystion i roi tystiolaeth.

(4) Caiff yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd annerch y panel ynglŷn â pham y dylid dirymu'r cyfarwyddyd.

(5) Bydd tystion yn cael eu holi gan y parti sy'n eu galw a gallant gael eu holi gan y parti arall, y panel a'r cynghorydd cyfreithiol.

(6) Bydd y panel apeliadau cofrestru yn cael cyngor cyfreithiol gan y cynghorydd cyfreithiol cyn dyfarnu ar y cais.

(7) Bydd y panel apeliadau cofrestru yn cael cyngor meddygol gan y cynghorydd meddygol cyn dyfarnu ar y cais pan wnaed y gorchymyn ar y sail bod amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer oherwydd rhesymau iechyd.

**Achos heb wrandawiad**

34. (1) Pan wneir dyfarniad ar gais o dan y Rhan hon mewn cyfarfod a heb yr angen am wrandawiad yn unol â Rheoliad 6(1) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, bydd gofynion canlynol y rheol hon yn berthnasol a bydd rheol 35 yn berthnasol o ran y weithdrefn i'w dilyn.

(2) Bydd y clerc yn anfon hysbysiad o’r cyfarfod at yr ymgeisydd, a fydd:

(a) yn datgan dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
(b) yn cynnwys yr holl ddogfennau sydd i’w hystyried gan y panel;
(c) yn rhoi gwybod i’r ymgeisydd am y canlyniadau posibl;
(ch) yn gwahodd yr apelydd i ddarparu unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig y mae’n dymuno eu gwneud ynglŷn â’r achos;
(d) yn rhoi gwybod i’r apelydd am ei hawliau i:
(i) fynychu gwrandawiad llafar;
(ii) rhoi tystiolaeth i’r panel;
(iii) gwneud cyflwyniadau llafar i’r panel naill ai’n bersonol neu drwy gynrychiolydd;
(iv) galw a chroesholi tystion;
(dd) yn rhoi gwybod i’r apelydd fod rhaid iddo hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o’r cyfarfod os yw’n dymuno arfer unrhyw un o’r hawliau ym mharagraff (d) ac, yn absenoldeb y cyfryw hysbysiad, y caiff y panel apeliadau cofrestru fwrw ymlaen i ymdrin â’r achos mewn cyfarfod ar y dyddiad a bennwyd.

(3) Ni fydd y cyfarfod yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw ddyddiad sy’n gynt na 42 diwrnod ar ôl anfon yr hysbysiad o’r cyfarfod ym mharagraff (2), ac eithrio gyda chytundeb y partïon.

**Y weithdrefn mewn cyfarfod panel apeliadau cofrestru**

35. (1) Bydd panel apeliadau cofrestru yn cyfarfod yn breifat gyda chynghorydd cyfreithiol, ond ni fydd unrhyw barti’n bresennol.

(2) Pan fydd yr ymgeisydd wedi gofyn i’r achos gael ei ystyried mewn gwrandawiad, bydd y panel yn oedi’r cyfarfod ac yn atgyfeirio’r achos ar gyfer gwrandawiad.

(3) Os yw’r panel o’r farn ar unrhyw adeg o’r cyfarfod y dylid ymdrin â’r achos mewn gwrandawiad, gan ystyried buddiannau cyfiawnder a budd y cyhoedd, bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad.

(4) Bydd y panel yn ystyried yr achos yn seiliedig ar y dystiolaeth ysgrifenedig a’r cyflwyniadau ysgrifenedig a wnaed gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chan neu ar ran yr apelydd.

**Hysbysiad o’r penderfyniad**

36. (1) O fewn saith diwrnod o ddiwedd y gwrandawiad neu’r cyfarfod, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o’r penderfyniad at yr ymgeisydd, a fydd:

(a) yn amlinellu penderfyniad a rhesymau’r panel apeliadau cofrestru;
(b) lle y bo’n berthnasol, yn amlinellu hawl yr ymgeisydd i apelio i’r tribiwnlys[11].

---

[11] Os bydd y Panel Apeliadau Cofrestru’n cadarnhau y dylai’r cyfarwyddyd o dan a98(4) barhau i fod yn ei le, dylai’r hysbysiad o’r penderfyniad gynnwys hysbysiad o’r hawl i apelio i’r Tribiwnlys o dan a104.

(2) O fewn saith diwrnod o ddiwedd y gwrandawiad, bydd y clerc yn anfon hysbysiad o'r penderfyniad at gyflogwr yr apelydd (os oes un), a fydd yn gyfyngedig i benderfyniad y panel apeliadau cofrestru.

(3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu'r wybodaeth ym mharagraff (2) i:

(a) Lywodraeth Cymru;
(b) unrhyw gorff rheoleiddiol.

**Rhoi Hysbysiadau**

37. (1) Gall yr hysbysiadau y mae angen eu hanfon at unigolyn cofrestredig o dan y rheolau hyn gael eu hanfon:

(a) trwy bost electronig i gyfeiriad post electronig sy'n gyfeiriad a roddwyd gan yr Ymgeisydd, yr Apelydd neu'r Unigolyn Cofrestredig i Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer cyfathrebu, neu'r cyfryw gyfeiriad post electronig diweddaraf arall sy'n hysbys i Ofal Cymdeithasol Cymru, neu

(b) trwy wasanaeth post neu wasanaeth danfon arall y mae ei ddanfon neu ei dderbyn yn cael ei gofnodi i gyfeiriad post yr Ymgeisydd, yr Apelydd neu'r Unigolyn Cofrestredig, neu trwy ei adael yno, fel y rhoddwyd y cyfeiriad yn y gofrestr (lle y bo'n berthnasol) neu'r cyfryw gyfeiriad diweddaraf arall sy'n hysbys i Ofal Cymdeithasol Cymru.

**Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru**



**Mick Giannasi**
**Cadeirydd, Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Dyddiad: 1.12.24**